
# Paratoi ar gyfer tymor newydd yr Ysgol Sul

**Dosbarthiadau oedolion**

Maes Llafur 2022/23 – *Dehongli Bywyd a Gwaith Abraham: y patriarch eciwmenaidd*, gan Gareth Lloyd Jones.




Yn dilyn blynyddoedd o wersi'n seiliedig ar gyfrolau'r diweddar Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts (a fu'n dilyn themâu o fewn y Testament Newydd), yn ystod y blynyddoedd nesaf hyn byddwn yn cael ein tywys at adrannau a llyfrau yn yr Hen Destament. Bydd hynny mewn cyfres o lyfrau 'Dehongli …', wedi eu paratoi gan y Parchedig Ddr Gareth Lloyd Jones, Llandegfan.

O fis Medi 2022 ymlaen, byddwn yn troi i gyfeiriad Abraham, y patriarch eciwmenaidd, ac yna, yn 2023, yn astudio'r ail gyfrol yn y gyfres, sef *Dehongli Bywyd a Gwaith Esther a Jona*, cyn gorffen gyda *Dehongli Bywyd a Gwaith Moses*. Pris y cyfrolau hyn yw £8.99 yr un, ac maent ar gael o'ch siop lyfrau Cymraeg leol, neu gellir prynu copi o'r gyfrol ar Abraham ar ffurf PDF digidol yma: https://ysgolsul.com/?downlofad=dehongli-bywyd-abraham-y-patriarch-eciwmenaidd.

Yn ychwanegol at y cyfrolau hyn, fe fydd yna gyflwyniad byr i'r wers ac ambell sylw perthnasol a chyfoes yn cael eu cynnwys o fewn tudalennau *Cenn@d* a'r *Tyst*, yn ogystal â chwestiynau i'w hystyried. Yn ystod y flwyddyn gyfredol, y Parchedig Meirion Morris fydd yn gyfrifol am y gwersi a'r sylwadau hynny. Bydd y gyfres yn cychwyn yn ffurfiol cyn diwedd Medi.

**Dosbarthiadau plant ac ieuenctid**

Dros y blynyddoedd diwethaf cyhoeddwyd nifer o werslyfrau gwahanol, sy'n addas i bob oed ac i sefyllfaoedd gwahanol. Mae rhai'n addas i ysgolion Sul mwy, efo'u dosbarthiadau gwahanol, tra mae eraill wedi eu paratoi ar gyfer criw bach ac ystod o oedrannau gwahanol mewn un dosbarth. Ceir cyfresi sy'n cynnwys gwersi ar gyfer pob Suly o'r flwyddyn, ond hefyd gyfresi sy'n fwy addas ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r sgol Sul yn cwrdd yn fwy tymhorol, neu efallai'n fisol.

Mae gwybodaeth lawn am y cyfresi hyn ar gael o wefan Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru, lle ceir hefyd samplau o wersi i'w lawr lwytho. Mae digonedd o wersi hefyd ar gael o wefan www.gair.cymru, a'r rheini yno i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim.

Dros y misoedd nesaf fe fydd Cyngor yr Ysgolion Sul ar daith, mewn un lleoliad gwahanol ar hyd a lled Cymru bob wythnos. Bydd cyfle i weld rhai o'r adnoddau hyn, yn ogystal â thrafod sut mae modd cychwyn a chynnal gweithgaredd Cristnogol sy'n addas ar gyfer ein cyfnod ni yn lleol yn ein cymunedau. Bydd gwybodaeth am y nosweithiau hyn ar dudalen Facebook Cyngor yr Ysgolion Sul.

Cofiwch gysylltu os hoffech gael mwy o wybodaeth neu gyngor: aled@ysgolsul.com neu 01766 819120.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru*



## Seion, Capel y Bedyddwyr, Llanelli, yn dathlu 200 mlynedd yr achos

## Darlith gan Y Parchg Ddr D. Densil Morgan 'Hanes Bedyddwyr Llanelli'

yng Nghapel Greenfield,
Murray Street / Station Road, Llanelli SA15 1DJ
(trwy ganiatâd caredig y Gweinidog a'r diaconiaid)

**Dydd Sadwrn, 24 Medi**
**am 4 o'r gloch y prynhawn**

**Mae aelodau Capel Greenfield, yn garedig iawn, yn darparu lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y ddarlith**

***Croeso Cynnes i Bawb***

## Cynhelir Oedfa i Ddathlu DAUCANMLWYDDIANT GENI IEUAN GWYLLT (1822–77)

yng Nghapel Pen-llwyn
Nos Sul, 2 Hydref 2022
am 5.00 yh

Llywydd: Ms Bronwen Morgan

Arweinir y noson gan
Y Fns Margaret Daniel a Dr Rhidian Griffiths
Cyfeilydd: Alan Wynne Jones
Dewch yn llu i ganu ac i rannu
Bydd rhaglen ar gael wrth y drws

Cyfrannodd John Roberts (Ieuan Gwyllt) a anwyd yn Nhanrhiwfelen, Capel Seion, cyn i'w deulu symud i ardal Pen-llwyn, yn aruthrol i ganu cynulleidfaol yng Nghymru. Heblaw am gyfansoddi emyn-donau mawreddog fel 'Moab' a 'Liverpool' ef hefyd a gyhoeddodd *Sŵn y Jiwbilî* oedd yn addasiad o emynau poblogaidd Sankey a Moody. Yr ydym yn parhau i ganu rhai o'i donau mwyaf poblogaidd hyd heddiw!

Byddwn yn cael ein harwain i gofio am fywyd ac am gyfraniad John Roberts gan Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth, sy'n gerddor ac yn arbenigwr yn hanes canu cynulleidfaol. Bydd Margaret Daniel, Blaenannerch, yn ein harwain i ganu detholiad o'r emynau a bydd Alan Wynne Jones, Bow Street yn cyfeilio wrth i ni gydganu.